

CYNGOR GWYNEDD

Cofnodion drafft o gyfarfod rhif 24 Grŵp Cyswllt Ardal Cadwraeth Arbennig (ACA) Pen Llŷn a'r Sarnau a gynhaliwyd ar 22 Mawrth 2017 (yn dechrau am 7pm) ym Mhlas Tan y Bwlch, Maentwrog.

Yn bresennol:

Cyng. Caerwyn Roberts (CR)	Awdurdod Lleol- Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri (Cadeirydd)
Alison Hargrave (AH)	Swyddog ACA PLAS
Catrin Glyn (CGN)	Swyddog Prosiect Ecosystemau Morol Llŷn
Dafydd Roberts (RO) AP	Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri (APCE)
Bill Miller-Jones (BMJ)	Arall - Deifiwr a pherchennog cwch
Rowland Sharp (RS)	AP – Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC)
Rhys Jones (RJ)	AP – Cyngor Gwynedd
Cyng. Ray Quant (RQ)	Awdurdod Lleol - Ceredigion
Nia Jones (NJ)	Ymddiriedolaeth Bywyd Gwyllt Gogledd Cymru
Molly Lovatt (ML)	AP - Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC)

(PLAS – Pen Llŷn a'r Sarnau)

(AP - Awdurdod Perthnasol)

Cyflwyniad

Croesawodd CR bawb i'r cyfarfod. Mynegodd CR dristwch am farwolaeth Mike Bowyer, fu yn aelod gweithgar o'r grŵp am nifer o flynyddoedd. Roedd y grŵp yn meddwl am ei deulu.

1. Ymddiheuriadau:

David Roberts	Awdurdod Lleol - Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri
Glyn Roberts	Pysgodfeydd Masnachol
Bob Lowe	Hamdden
Jill Whipp	Bywyd Gwyllt
Mike Parry	Twristiaeth

2. Y diweddaraaf am aelodaeth y Grŵp Cyswllt

Eglurodd AH nad oedd y grŵp wedi cyfarfod ers peth amser ac roedd hyn yn bennaf oherwydd iddi gael damwain ac nad oedd yn gallu teithio. Er hynny, nododd fod llawer iawn o'r gwaith wedi'i gwblhau ac roedd wedi cyfarfod nifer o aelodau'r grŵp drwy amryfal agweddau o'r gwaith.

Esboniodd AH y bu ychydig o newidiadau i'r Grŵp Cyswllt ac i Grŵp yr Awdurdodau Perthnasol yn ystod y misoedd diwethaf ac felly roedd angen ail-edrych ar yr aelodaeth i sicrhau fod pob lle gwag wedi ei llenwi.

Grŵp yr Awdurdodau Perthnasol:

CNC - Gadawodd Lucy Kay ei swydd ym mis Hydref Nid oedd CNC wedi llenwi ei swydd. Yn y cyfamser, bydd Rowland Sharp yn cymryd ei lle ar y grŵp.

Cyngor Gwynedd - Roedd Huw Davies bellach wedi ymddeol. Roedd yn aelod buddiol o'r grŵp gan ei fod yn edrych ar faterion o agwedd wahanol. Esboniodd AH ei bod hefyd yn chwilio rywun yn ei le o'r Cyngor. Soniodd AH y byddai efallai yn syniad da cael rhywun yn cynrychioli twristiaeth ar y grŵp i gael mwy o safbwynt yr economi ar y grŵp.

Grŵp Cyswllt:

Bydd yn rhaid edrych ar aelodaeth y grŵp i sicrhau fod gennym gynrychiolaeth ddigonol o'r holl grwpiau diddordeb.

Esboniodd CR y bydd David Roberts yn gadael ei swydd yr wythnos nesaf ar ôl cyfnod o ddeng mlynedd gyda APCE.

Soniodd RS y gallai Tom Hughes o siop offer pysgota Pwllheli fod yn aelod da ar y grŵp.

Crybwyllodd RJ mai Siân Pennant a Bleddyn Jones ddylai fod y pwynt cyswllt cyntaf ar gyfer twristiaeth yng Nghyngor Gwynedd.

Soniodd BMJ y byddai Laura Hughes o'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol yn aelod da.

Dywedodd CR y byddai Aeron Williams yn gysylltiad da ar gyfer twristiaeth yn ardal Y Bermo/Harlech.

Soniodd RQ y byddai Andy Rowlands o Biosffer Dyfi yn gyswllt da.

Gweithredu: AH i ddiweddarau rhestr aelodaeth y grŵp cyswllt a'i hanfon at y grŵp.

Gweithredu: PAWB i edrych ar y rhestr gan anfon awgrymiadau at AH am aelodau newydd ble roedd angen.

3. Ardaloedd Morol Gwarchoddedig (MPA) yng Nghymru

a. Brexit

Eglurodd AH y byddai popeth yn aros yr un fath gan ein bod yn parhau'n rhan o Ewrop ar hyn o bryd. Roedd hyn yn golygu ein bod yn dal yn gymwys i ymgeisio am gronfeydd Ewropeaidd ac ati. Roedd Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru yn parhau'n aneglur o ran beth fydd yn digwydd dros y blynyddoedd i ddod. Roedd y Gyfarwyddeb Cynefinoedd yn gyfarwyddeb Ewropeaidd; er hynny, roedd y ddeddfwriaeth wedi'i hymgorffori i gyfraith y DU fel y Rheoliadau Cynefinoedd. Fodd bynnag, roedd cysylltiadau cryf rhwng y Rheoliadau Cynefinoedd a'r Gyfarwyddeb Ewropeaidd ac roedd hyn yn golygu y byddai angen taro golwg ar y ddeddfwriaeth. Cadarnhawyd y bydd deddfwriaeth cadwraeth forol yn parhau am y tro a bydd dynodiadau presennol yn aros fel y maent. Ychwanegodd AH ei bod yn eistedd ar Grŵp Llywio Rheolaeth MPA, grŵp a gadeiriwyd gan Lywodraeth Cymru (LIC). Roedd cyfle i fwydo i'r broses Brexit drwy'r grŵp yma.

b. Grŵp Llywio Rheolaeth MPA

Eglurodd AH ei bod yn gwasanaethu ar y grŵp fel ymgynghorydd i sicrhau y gwneir cysylltiadau rhwng materion ar lefel safle a lefel genedlaethol. Roedd y grŵp yn cyfarfod bob rhyw ychydig o fisoedd. Yn wreiddiol, sefydlwyd y grŵp i ystyried opsiynau ar gyfer rheoli'r awyrgylch morol yng Nghymru ond nid oedd cyllid i weithredu'r mesurau hyn ar gael bellach. Argymhellodd AH y dylai'r grŵp barhau i ystyried hyn a chefnogi'r hyn oedd

yn ei le'n barod. Roedd y grŵp yn cytuno gyda hyn ac roedd AH wedi bod mewn cyfarfod â LIC a CNC i drafod sut i fwrw ymlaen gyda hyn. Yn ogystal, byddai Grŵp Llywio Rheolaeth MPA yn ystyried materion eraill ar lefel Cymru gan hyrwyddo MPA yn eu sefydliadau.

c. MPA newydd yng Nghymru

Eglurodd AH gan ein bod yn dal yn Ewrop y bydd y safleoedd newydd yn parhau i fynd rhagddynt.

Gofynnwyd cwestiynau am oblygiadau dynodiadau llamhidyddion ar PLAS. Eglurwyd nad oedd dim yn eglur am sut y bydd y rhain yn cael eu rheoli ac mai ychydig iawn o ganllawiau oedd yn bodoli. Esboniodd RS mai ychydig iawn yr oeddent yn ei wybod am y gweithgareddau yn yr ardal ac roedd Seawatch yn ceisio llenwi bylchau yn y data. Ychwanegodd AH mai Prosiect Cadw golwg ar Ddolffiniaid a benderfynodd ar y lleoliad ar ôl ystyried pa rannau o ardal Llŷn oedd eisoes wedi eu hastudio.

d. Grŵp Tasg a Gorffen Bioamrywiaeth Morol LIC

Eglurodd AH fod hwn yn grŵp newydd a sefydlwyd gan LIC i edrych ar fioamrywiaeth forol yng Nghymru. Nododd AH ei bod yn gwasanaethu ar y grŵp hwn i sicrhau y gwneir cysylltiadau rhwng bioamrywiaeth forol a gwaith MPA. Roedd cysylltiadau cyffredin amlwg ar draws cynefinoedd, rhywogaethau a materion, ond ymdriniwyd â hwy ar wahân ar hyn o bryd. Roedd y grŵp wedi blaenoriaethu'r deg cynefin a rhywogaethau uchaf gan annog prosiectau oedd wedi eu canoli o amgylch y deg uchaf. Nid oes gan LIC unrhyw arian i weithredu na rhedeg y prosiectau hyn ond roedd yn annog eraill i wneud hynny.

Gweithredu: AH i ail-anfon mapiau ACA y llamhidyddion

4. Rheoli safle PLAS

a. **Rhaglen waith PLAS Ebrill 2016 - Mawrth 2018**

Rhoddodd AH gyflwyniad oedd yn amlinellu rhaglen waith PLAS am 2016 - 2018. Crynhodd y gwaith a wnaed yn 2016/17 gan amlinellu'r y gwaith a wneir yn 2017/18.

Roedd y Rhaglen Waith am 2016-2018 yn cynnwys:

- Prosiect Morwellt Porthdinllaen
- Prosiect Lagŵn Morfa Gwyllt
- Prosiect Cadw golwg ar Ddolffiniaid
- Cynhyrchu cylchgrawn PLAS
- Prosiect Ecosystemau Morol Llŷn

Prosiect Morwellt Porthdinllaen

Y prif faterion bydd y prosiect yn edrych arnynt:

- Ymgysylltu efo'r gymuned leol
- Effaith angorfeydd yn yr harbwr mewnol
- Effaith angorfeydd yn yr harbwr allanol
- Effaith ar gerbydau yn y rhynglanw

Gwaith a wnaed 2016/17

- Gweithio gyda ACA Morol Sir Benfro a Pharth Cadwraeth Morol Skomer
- Roedd llawer o astudiaethau ac arolygon wedi'u cynnal
- Roedd nifer o adroddiadau wedi eu cynhyrchu
- Roedd syniadau ar sut i addasu'r angorfa wedi eu trafod
- Roedd AH wedi dechrau trafodaethau gyda CNC am raglen fonitro morwellt ar lefel Cymru
- Cynhaliwyd cynhadledd ryngwladol yn Nant Gwrtheyrn ym mis Hydref 2016. Mynychwyd y gynhadledd gan dros 200 o wyddonwyr o bedwar ban byd. Rhoddodd AH gyflwyniad a chynhaliwyd gweithdy a thaith dywys i hyrwyddo Prosiect Morwellt Porthdinllaen a'r ACA.
- Roedd astudiaeth ar effaith cerbydau ar y morwellt rhynglanw wedi dechrau

Gwaith i'w gwblhau 2017/18

- Paratoi cynllun cyfnewid angorfeydd i'r harbwr mewnol
- Llunio adroddiad sy'n edrych ar addasiadau i'r harbwr allanol
- Dulliau treialu i ostwng unrhyw effeithiau yn yr harbwr allanol
- Treialu angorfeydd helical yn yr harbwr mewnol
- Cadarnhau pwy sy'n gyfrifol am reoli'r harbwr allanol

Prosiect Lagŵn Morfa Gwyllt

Y prif faterion bydd y prosiect yn edrych arnynt:

- Ymgysylltu efo'r gymuned leol
- Baw Cŵn
- Ysbwriel
- Sathru
- Ffensys a giatiau wedi torri
- Dim digon o ddata monitro

Gwaith a wnaed 2016/17

- Ymweliad safle i sicrhau fod yr wybodaeth yn gywir
- Cyfarfod â thîm morwrol CG.
- Cyfarfod â staff CNC Dolgellau.
- Sefydlu grŵp llywio sy'n cynnwys y gymuned leol.

Gwaith i'w gwblhau 2017/18

- Gosod / trwsio giatiau a ffensys
- Gosod biniau ysbwriel a baw cŵn
- Cynhyrchu a gosod panel dehongli
- Cynhyrchu taflen ddehongli
- Datblygu rhaglen wyddoniaeth i'r dinesydd i gasglu data monitro

Prosiect Cadw golwg ar Ddolffiniaid

Y prif faterion bydd y prosiect yn edrych arnynt:

- Ymgysylltu efo'r gymuned leol
- Monitro cydymffurfio gyda Côt Ymddygiad Morol
- Helpu i roi gwybod i reolwyr y safle am famaliaid morol

Gwaith a wnaed 2016/17

- Gweithio gyda ACA Ceredigion
- Cytunwyd ar Abersoch fel lleoliad
- Roedd adroddiad cychwynnol wedi ei lunio
- Cynhyrchwyd Aseiad Risg.
- Cynhaliwyd sesiwn hyfforddiant i wirfoddolwyr
- Cynhaliwyd treial 6 wythnos dros yr haf
- Roedd yr arolygon wedi'u dychwelyd

Gwaith i'w gwblhau 2017/18

- Cynnal Prosiect Cadw Golwg ar Ddolffiniaid, haf 2017
- Dadansoddi'r canlyniadau dros y ddau dymor
- Cynhyrchu adroddiad am y prosiect a'r canlyniadau

Cylchgrawn PLAS

Y prif faterion bydd y prosiect yn edrych arnynt:

- Hyrwyddo'r ACA
- Darparu diweddariad ar yr holl brosiectau gaiff eu cynnal
- Codi ymwybyddiaeth

Gwaith a wnaed 2016/17

- Comisiynwyd dyluniwr sy'n fodlon cynorthwyo i ddylunio'r cylchgrawn am gyfradd isel (gan y bydd yn fanteisiol i'r amgylchedd)
- Lluniwyd y dyluniadau cychwynnol.
- Roedd gwaith wedi dechrau ar erthyglau a delweddau
- Roedd ysgol leol wedi cytuno i helpu gyda'r dudalen ysgolion

Gwaith i'w gwblhau 2017/18

- Cynhyrchu, hyrwyddo a dosbarthu'r cylchgrawn

Prosiect Ecosystemau Morol Llŷn

Y prif faterion bydd y prosiect yn edrych arnynt:

- Dyma brosiect ar y cyd rhwng yr ACA a Chymdeithas Bysgotwyr Cymru ac eraill
- Gweithio gyda'r diwydiant pysgota lleol i ddatblygu dull o gyd-reoli'r amgylchedd morol o amgylch Llŷn.
- Gweithredu rhai prosiectau i arddangos y model

Gwaith a wnaed 2016/17

- Catrin Glyn yw'r swyddog ac Alison Hargrave yw rheolwr y prosiect
- Lluniwyd yr adroddiadau a ganlyn
 - o Cyd-reoli
 - o Dull Gweithio sy'n seiliedig ar Ecosystemau
 - o Pysgota am Sbwriel
 - o Cod Ymddygiad
 - o Rheoli mamaliaid morol drwy ddefnyddio pingeri ar rwydi pysgota

Gwaith i'w gwblhau 2017/18

- Parhau i reoli'r prosiect
- Parhau i ddatblygu'r prosiect sbwriel
- Parhau i ddatblygu'r prosiect cod ymddygiad

- Datblygu prosiectau pellach

Ymgysylltu gyda rhanddeiliaid a chodi ymwybyddiaeth

Mae ymgysylltu â'r rhanddeiliaid a chodi ymwybyddiaeth yn elfennau allweddol yn y cyfan o'r prosiectau uchod. Cynhaliwyd gwaith sylweddol yn y maes yma sy'n cynnwys:

- Cyflwyniadau
- Ymweld ag ysgolion
- Sioeau a digwyddiadau
- Cyhoeddusrwydd drwy'r radio, erthyglau, datganiadau i'r wasg a'r cyfryngau cymdeithasol
- Sioe Deithiol Addysgol Forol mewn partneriaeth gyda APCE a'r Ymddiriedolaeth Bywyd Gwyllt
- Dyddiau agored
- Gweithdai
- Sesiynau Galw Heibio
- Presenoldeb ar draethau a safleoedd lansio
- Cyfarfodydd gyda nifer o fudiadau, grwpiau ac unigolion

Cafodd y grŵp drafodaeth gyffredinol am y rhaglen waith. Soniodd RS fod Maelgwn wedi eu cofnodi ar y safle. Nododd AH y byddai hyn yn gwneud eitem dda i'r cylchgrawn. Dywedodd BMJ fod dolffiniaid cyffredin yn cael eu dal mewn rhwydi ar y môr.

Gweithredu: AH i anfon holl adroddiadau Prosiect Ecosystemau Morol Llŷn

Gweithredu: RS i anfon gwybodaeth i AH am y Maelgwn a welwyd

Gweithredu: RS i baratoi erthygl fer am y Maelgwn a welwyd i'r erthygl a'i anfon at AH.

Gweithredu: AH i anfon sgwrs CNC ar PCPs yn nheulu'r morfil

b. Adroddiad cyflwr nodweddion

Eglurodd RS fod diffyg staff wedi bod yn broblem ond fod peth cynnydd wedi'i wneud yn Sir Benfro. Yn sgil cyfyngiadau staff, ni wnaed unrhyw gynnydd yn y gogledd. Soniodd RS y byddai cyfarfod mewnol CNC am hyn yn ystod yr wythnosau nesaf.

Gweithredu: RS i anfon diweddariad i AH ar ôl y cyfarfod

c. Monitro

Eglurodd RS fod CNC yn dal i fod â rhaglen fonitro ond roedd cyfyngiadau ariannol. Roedd Rohan Holt, aelod allweddol o'r tîm monitro, wedi gadael CNC. Mike Camplin yw Arweinydd y Tîm.

d. Ariannu

Eglurodd AH ei bod wedi sicrhau arian hyd ddiwedd mis Mawrth 2018. Roedd wedi sicrhau arian drwy gronfa gystadleuol CNC, grant refeniw unigol yr Awdurdod Lleol a chyfraniadau gan Awdurdodau Perthnasol gan gynnwys Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri, Dŵr Cymru a Thy'r Drindod.

Roedd AH hefyd wedi sicrhau arian i barhau gyda Prosiect Ecosystemau Morol Llŷn (prosiect ble mae'r ACA yn gweithio gyda'r diwydiant pysgota lleol i ddatblygu dull gwell o gyd-reoli'r ardal). Ariannwyd hyn drwy gronfa gystadleuol CNC a SeaFish.

Ar hyn o bryd, roedd AH yn chwilio am arian ar ôl Mawrth 2018. Esboniodd ei bod yn gweithio ar gais am arian o'r Gronfa Ddatblygu Wledig (prosiect tir - morol). Bydd y gwaith yn cynnwys lleihau dŵr ffo amaethyddol sy'n llifo i aber Glaslyn/Dwryd, prosiect adfer y cimwch coch a phrosiect am ddyfrgwn. Esboniodd bod Datganiad o Ddiddordeb wedi ei dderbyn ac roedd wrthi yn rhoi cais llawn at ei gilydd gyda Swyddog Prosiect Tirwedd Llŷn CG.

Nododd AH ei bod hefyd yn ystyried EMFF i ehangu'r y gwaith am y cimwch coch. Roedd hefyd wedi cyflwyno cais am y grant refeniw sengl.

Nid oedd CNC yn dal yn sicr beth fydd ar gael ganddynt a beth allai'r broses fod.

Gweithredu: Pawb i anfon syniadau ariannu at AH

5. Asesu Prosiect Gweithgareddau Pysgota Cymru gan Rowland Sharp (CNC)

Rhoddodd RS gyflwyniad ar Brosiect Gweithgaredd Asesu Pysgodfeydd Cymru CNC. Bydd copi o'r papur yn cael ei ddsbarthu gyda'r cofnodion.

Trafododd y grŵp gynnwys y cyflwyniad. Y prif bwyntiau a wnaed:

- Y gorau po fwyaf a wyddom am fywyd morol
- Roedd llawer o ddeddfwriaeth ond dyma sut roedd yn cael ei blismona
- Nid oedd treillio am gregyn bylchog ar y rhestr gan ei fod yn cael ei asesu dan erthygl 6(3) o'r Gyfarwyddeb Cynefinoedd
- Os oes gan gychod drwydded yna mae'n rhaid iddynt fod â dyfais 'succorfish' wedi ei gosod. Mae yn canu bob 10 munud i ddangos ble mae'r cwch. Mae'n bosib y gall fod offer newydd ar gael rhyw bryd sy'n penderfynu os yw offer y cwch i mewn neu allan o'r dŵr.
- Mae problem gyda chychod mawr yn dod i'r lan gyda'r nos. Atebodd RS gan ddweud eu bod yn ymwybodol o hyn. Roedd llawer yn gyfreithlon gan nad oeddent yn pysgota; gallant ddod i mewn i gysgodi ac ati. Gofynnodd aelod beth fedrai pobl leol wneud am hyn pan fyddant yn eu gweld. Atebodd RS gan ddweud bod modd adrodd amdano, ond roedd yr awdurdodau angen gwybod os oeddent yn pysgota ai peidio h.y. roedd angen prawf. Ychwanegodd RS bod modd cyflwyno mesur fel dim pysgota yn y tywyllwch ond byddai hyn yn gymwys i'r holl ddiwydiant pysgota nid dim ond i'r cychod mwy oedd yn dod i mewn.
- Gofynnodd DR sawl achos o bysgota anghyfreithlon a gafwyd? Dywedodd RS nad oedd LIC yn gallu datgelu'r wybodaeth oni bai fod achos wedi mynd i'r llys ac roedd y broses yma'n gallu cymryd amser.

Gweithredu: AH i ddsbarthu'r cyflwyniad.

6. Unrhyw faterion o bryder neu ddiddordeb - cyfle i ddod a materion yn ymwneud â'r ACA i sylw'r grŵp neu ar gyfer trafodaeth bellach.

Gofynnodd BMJ os cafwyd unrhyw adroddiadau pellach am Gimwch America ar y safle. Nid oedd neb wedi gweld mwy ohonynt.

Soniodd BMJ fod cychod mawr yn dod i harbwr Pwllheli i ddadlwytho gwerth tua £20,000 o wichiaid moch. Gofynnodd os fedrai CG godi tâl docio a fedrai gyfrannu at ariannu PLAS.

Gweithredu: AH i wirio am ffi docio ar gyfer cychod mawr.

Ychwanegodd BMJ ei fod wedi dod yn rhan o SeaWatch.

7. Amser a dyddiad y cyfarfod nesaf.

Cyfarfod i'w gynnal ym mis Hydref 2017. AH i drefnu.

Gweithredu: AH i drefnu'r cyfarfod Grŵp Cyswllt nesaf.